

Diweddariad Creu Conwy

Mis Mawrth 2022



Creu Conwy

Creu Sbardun / Creating the Spark

Croeso!

Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy **Creu Conwy, Creu Sbardun - Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Sir Conwy 2021 - 2026**. Erbyn hyn rydym yn mynd i'r cam cyffrous o ddarparu yn erbyn y weledigaeth fod **diwylliant yn creu'r sbardun ar gyfer twf economaidd, lles a chysylltiad**.



© Kristina Banholzer

Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU

Mae'n bwysig bod Creu Conwy yn cael yr effaith mwyaf bosibl ar ein rhanbarth. Diolch i gyllid gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU, bydd y flwyddyn gyntaf o ddarparu'r strategaeth yn ymchwilio a datblygu ystod o brosiectau a ffyrdd newydd o weithio ar draws y bartneriaeth strategol 'Creu Conwy' newydd.



© Paul Sampson



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU

Cyllid a Llywodraethu

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wedi penodi OneDay Regeneration Ltd a Cynlas Cyf i helpu sefydlu model llywodraethu a chyllido cadarn ar gyfer Creu Conwy. Mae'r model llywodraethu yn ddwy haen, gyda chorff partneriaeth arweiniol (Partneriaeth Creu Conwy) yn darparu cydlyniant strategol a 'Sbardunau Diwylliannol' ym mhum tref fwyaf y sir i weithredu fel canolbwynt ar gyfer adfywio wedi'i arwain gan ddiwylliant. Bydd Partneriaeth Creu Conwy yn cynnwys cynrychiolwyr y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector o sectorau creadigol, diwylliannol a thwristiaeth y sir, gyda strwythur cyfreithiol sy'n cynyddu mynediad at gyllid ac sy'n galluogi cynhyrchu incwm.

Diweddariad Creu Conwy Mis Mawrth 2022



© Paul Sampson



Oriel Môr



Mae'r prosiect hwn yn edrych ar ymarferoldeb oriel gelf awyr agored cyffrous yn ymestyn o Lanfairfechan i Bensarn. Bydd Oriel Môr yn defnyddio dyluniad cyfoes ac arloesol i greu gofodau oriel awyr agored sy'n rhoi mynediad rhydd i'r celfyddydau a darparu lloches ar hyd llwybr teithio llesol. Mae'r gwaith hwn yn integreiddio gyda nifer o gynlluniau gwella arfordirol yn ystod camau amrywiol cwblhau.

Diwylliant a Lles

Y darn cyntaf o waith o dan faes Lles Creu Conwy yw archwiliad o'r cynnig Lles presennol o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'i bartneriaid. Y nod yw archwilio cyfleoedd cydweithredol yn y dyfodol a darparu modelau a chanfod rhai mentrau lles blaenoriaethol i'w peilota o dan Creu Conwy.



© Keith Morris



© Lisa Heledd-Jones



Y Gymraeg a phrofiad ymwelwyr yng Nghonwy

Mae'r prosiect hwn yn edrych am gyfleoedd i annog y defnydd o'r Gymraeg yn y cynnig i ymwelwyr, gan helpu i wella profiad ymwelwyr ac ychwanegu at naws am le gwirioneddol a nodweddiadol. Mae CBSC wedi penodi Arwel Jones Associates mewn cydweithrediad â Menter Iaith Conwy i edrych ar arferion gorau mewn rhannau eraill o'r DU ac Ewrop lle mae iaith yn cyfrannu tuag at brofiad yr ymwelwyr a'r naws am le. Byddent yn defnyddio'r ddysgeidiaeth hon i argymhell prosiectau ar gyfer Conwy a chreu pecyn gwaith i gyfarwyddo a chefnogi sector twristiaeth Conwy o ran y defnydd o Gymraeg.



Creu Conwy

Creu Sbardun / Creating the Spark



© CBSC



Ap Llwybr Dychmygu – Cyfnod 2



Mae hwn yn dilyn prosiect diweddar creu lleoedd Dychmygu Bae Colwyn a fydd yn gweld ehangiad y llwybr treftadaeth realiti estynedig ym Mae Colwyn a Mochdre. Yn ganolog i'r prosiect mae cyflogadwyedd a sgiliau digidol; cynnwys creadigol a datblygiad technegol a gaiff ei arwain gan dîm cynhyrchu cymunedol yn gweithio ar y cyd â Cherddoriaeth & Ffilm TAPE a Reality Boffins.





Gweithio mewn partneriaeth - Ciplun

2022

Gigs y Gaeaf - dathliad o ddawn a lleoliadau Conwy gan blethu rhaglen fentora mewn partneriaeth â Beacons, Gorwelion, Wisgi Penderyn a Culturestep trwy Gelfyddydau a Busnes Cymru (gaeaf 2022).

Mae Creu Conwy yn gweithio gyda **Pigtown Theatre, Cadw a Youth Shedz Cymru** i ddatblygu cynhyrchiad theatr i'w berfformio mewn fersiwn rhith-realiti o Gastell Conwy, wedi'i ariannu drwy gyllid Gaeaf Llawn Les (Llywodraeth Cymru).

Mae **Cwrdd Â Mi Wrth Yr Afon** yn brosiect ymgysylltu cymunedol gwledig MOSTYN mewn cydweithrediad â'r artist Frances Disley sy'n archwilio'r perthnasoedd rhwng rhwydweithiau dynol ac an-ddynol ar hyd Afon Conwy. Bydd y prosiect yn creu grŵp newydd o blith aelodau o sefydliadau cymunedol presennol yr ardal. Mae Creu Conwy a Chanolfan Ddiwylliant Conwy yn cefnogi gweithgareddau gweithdai a gwerthuso prosiectau.

Mae **Menter Iaith** a phartneriaid yn ymchwilio i'r posibilrwydd o greu gofod perfformio a'r celfyddydau aml-ddefnydd ar dop yr hen fanc HSBC lle mae eu swyddfeydd bellach wedi'u lleoli. Cafodd y gofod arbennig hwn ei ddefnyddio fel llawr dawnsio am gyfnod yn y 1960au a'r 1970au.

Mae CBSC wedi sicrhau £85,000 o gyllid gan y rhaglen Grant Plant a Chymunedau (Llywodraeth Cymru) i ddarparu rhaglen **Pobl Ifanc Creadigol** deuddeg mis gan roi llwybr celfyddydau creadigol i bobl ifanc 0 - 25 oed. Bydd cyfleoedd yn cynnwys gweithgareddau amrywiol o ddawnsio fertigol i chwarae synhwyraidd ac adrodd straeon.

Mae'r **Tîm Tref ar gyfer y cyntaf o'r ardaloedd Sbardun Diwylliant Creu Conwy newydd ym Mae Colwyn** yn symud ymlaen gyda Chynllun Gweithredu i ysgogi rhaglen o weithgareddau diwylliannol a phrosiectau creadigol yn 2022. Mae'r Cynllun yn cynnwys: cam ll o'r prosiect State of Independents sy'n bwriadu hyrwyddo cymysgedd eclecig y dref o fasnachwyr a chrefftwyr annibynnol; cyfres o weithgareddau perfformio a chelf weledol sy'n cyd-fynd â'r farchnad artisan ac yn arwain at gyngerdd y High Flying Birds ym mis Mehefin; a gŵyl penwythnos sy'n creu cyswllt rhwng Llandudno a Bae Colwyn, yn canolbwyntio ar y ddau bier, yn hyrwyddo glan y môr ac amgylchedd naturiol ac adeiledig y ddau gyrchfan.

Mae gwneud cais ar gyfer Dinas Diwylliant y DU ar y cam mynegi diddordeb wedi rhoi cyfle i Gonwy wneud cais am gyllid o dan gronfa etifeddiaeth **Spirit of 2012**. Byddai buddsoddiad yn cryfhau isadeiledd gwirfoddoli ar gyfer y sectorau diwylliannol a chreadigol. Mae cais rownd gyntaf yn cael ei baratoi a hoffem glywed gan bartneriaid ac unigolion a hoffai fod yn rhan o'r broses gyffrous hon.

BEACONS
BANNAU

GIGS Y
GAEAF
WINTER
SOUNDS

Arts
& Business
Cymru

PENDERYN
DISTILLERY



MOSTYN



Disability Creu Celf
Arts Cymru



Cysylltu â ni - 01492 576 139 / creu@conwy.gov.uk